# Tueddiadau cyngor yng Nghymru

**Ystadegau am gleientiaid gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru:**

Chwarter 3 (Hydref - Rhagfyr 2015)



cyngor ar bopeth

citizens advice

# Cyngor ar Bopeth Cymru

Cafodd elusen Cyngor ar Bopeth ei sefydlu ym 1939. Ers hynny, rydym wedi rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth ar bob math o faterion bob dydd i bwy bynnag sydd ei angen, o ddyledion, arian a budd-daliadau lles i dai, cyflogaeth a pherthnasau.

Mae ein sesiynau addysg ariannol a rhaglenni gwneud yn fawr o'ch incwm hefyd yn helpu pobl i gymryd rheolaeth o'u harian a sicrhau bod y rhai mewn angen yn hawlio'r holl gymorth ariannol sy'n ddyledus iddyn nhw.

Yng Nghymru, mae gennym rwydwaith o 19 o ganolfannau lleol Cyngor ar Bopeth[1] - elusennau unigol bob un, gyda bron i 800 o staff gwirfoddol a chyflogedig ymroddedig.


Rydym yn chwalu'r rhwystrau i gyngor trwy fynd i lefydd lle mae pobl ein hangen fwyaf, gan roi cyngor o 375 o leoliadau cymunedol o Fôn i Fynwy, yn ogystal â chynnig gwasanaethau dros y ffôn ac ar-lein.

Mae miliynau o bobl ledled Cymru a Lloegr yn troi atom bob blwyddyn. Trwy hyn, cawn gipolwg unigryw ar eu hanghenion a'u pryderon nhw. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ymgyrchu dros faterion o bwys, yn lleol ac yn genedlaethol. Felly, rydym yn helpu pawb mewn rhyw fodd – nid dim ond rhai sy'n cael cymorth uniongyrchol gennym.

[1] Mae Cyngor ar Bopeth yn newid. Rydym yn moderneiddio ein gwasanaethau er mwyn ymateb i anghenion sy'n newid ac er mwyn cyrraedd mwy o bobl. Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi newid enw'r gwasanaeth – gyda 'canolfan' bellach yn cael ei galw yn Cyngor ar Bopeth lleol.

# Tueddiadau cyngor – dyma'r penawdau

Rhwng **mis Hydref a mis Rhagfyr 2015**, fe wnaeth Cyngor ar Bopeth Cymru helpu mwy na **29,700 o bobl** gyda mwy na **98,400 o broblemau**, **cynnydd o 8%** o gymharu â'r un cyfnod yn 2014-15[2]. Mae adran Cymru o wefan hunangymorth Cyngor ar Bopeth wedi cael dros **180,258 o ymwelwyr** yn y cyfnod hwn hefyd.




▲ Graff 1: Y 10 maes cyngor mwyaf cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth yn ymdrin â nhw yng Nghymru yn ystod Ch3 2015-16 a Ch3 2014-15

Problemau gyda budd-daliadau a chredydau treth yw'r grŵp mwyaf o broblemau o bell ffordd o hyd o ran y problemau y mae pobl Cymru yn gofyn am gymorth ar eu cyfer, ac mae'r ymholiadau wedi cynyddu 6% ers yr un cyfnod y llynedd. Mae problemau gyda dyledion yn parhau i ostwng ychydig (2%), gan ddangos bod nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth gyda phroblemau dyledion yn gwastatáu. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae natur newidiol dyledion yn parhau i ddangos bod pobl yn cael trafferth i dalu costau byw bob dydd ac rydym wedi gweld cynnydd nodedig (11%) mewn materion gorchymyn rhyddhad dyledion.


[2] Dylid nodi bod mân newidiadau wedi'u gwneud i nifer y materion a gofnodwyd o dan 'Cyfleustodau a chyfathrebu' a 'Gwasanaethau ariannol a gallu' yn sgil problemau technegol yn un o ganghennau Cyngor ar Bopeth Cymru.

## Budd-daliadau a lles

Problemau gyda budd-daliadau yw testun mwyaf cyffredin y cyngor a roddir gan Cyngor ar Bopeth lleol yng Nghymru. Dyma yw **38%** o'r holl faterion sy'n dod i'n sylw ni ar hyn o bryd. Rhwng mis Hydref a Rhagfyr 2015 cafodd bron i **13,516 o bobl** gymorth gyda mwy na **37,148 o broblemau yn ymwneud â budd-daliadau**, sydd ychydig yn uwch (6%) na'r chwarter cyfatebol yn 2014.

Mae **43%** o broblemau budd-daliadau yn ymwneud â PIP ac ESA

Fel y rhagwelwyd, mae cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Bersonol[3] wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn ymholiadau a dyma o hyd yw'r **mater unigol mwyaf** y mae pobl yn gofyn am gymorth yn ei gylch am y chweched chwarter yn olynol. Y cynnydd nodedig arall na ddangosir isod yw'r cynnydd mewn ymholiadau am gredyd cynhwysol, cynnydd o dros 1000% o'i gymharu â'r chwarter cyfatebol yn 2014-15. Ond mae'r niferoedd yn parhau'n isel ar 289. Er bod Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno ledled Cymru bellach, dim ond i hawlwyr unigol y mae'n berthnasol ar hyn o bryd.[4]




▲ Graff 2: Y 10 problem budd-daliadau a chredydau treth mwyaf cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â nhw yn ystod Ch3 2015-16 a Ch3 2014-15

[3] Budd-dal nad yw'n seiliedig ar brawf modd yw PIP (Taliad Annibyniaeth Bersonol) ac mae'n graddol ddisodli'r lwfans byw i'r anabl (DLA) i bobl o oedran gweithio (16 i 64 oed).
[4] Shotton, Sir y Fflint yw'r eithriad lle maent yn derbyn cyplau a theuluoedd hefyd.

Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2015 fe wnaeth ein gwasanaeth helpu **3,902 o gleientiaid** gyda **9,548 o broblemau PIP – cynnydd o 27%** o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae hynny'n fwy na dwywaith y brif broblem ddyledion sef ôl-ddyledion y dreth gyngor. O'r rhai a ofynnodd am gymorth gyda'u PIP, gofynnodd **917 o bobl** am gymorth gydag apêl, neu i herio penderfyniad, **cynnydd o 36 y cant ar yr un cyfnod y llynedd.**

Gan adlewyrchu data Tueddiadau Cyngor Cymru a Lloegr ar gyfer chwarter 3, mae data Cymru gyfan yn dangos gostyngiad o 22% mewn materion sy'n gysylltiedig â Lwfans Ceiswyr Gwaith, a gostyngiad o 24% mewn ymholiadau budd-dal tai tanfeddiannaeth. Gellir gweld amrywiadau nodedig yn lefel a'r math o broblemau budd-daliadau a threthi yn y tabl isod:

| Math o fudd-dal | Nifer y problemau: | Newid o Ch3 2014-15 |
|---|---|---|
| **Credyd cynhwysol** | **289** | **+1,104%** |
| Lwfans ceiswyr gwaith | 1,242 | -22% |
| Lwfans gweini | 814 | +5% |
| Lwfans byw i'r anabl | 1,610 | -11% |
| Tanfeddiannaeth budd-dal tai | 81 | -24% |
| Banciau bwyd ('Cymorth elusennol') | 418 | -3% |
| Lles cymdeithasol lleol/ Cronfa Cymorth Dewisol (DAF) | 285 | +10% |

▲ Tabl 1: Newidiadau nodedig mewn problemau budd-daliadau/credydau treth y bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â nhw yn ystod Ch3 2015-2016

Cynnydd o **11%** ym mhroblemau gorchmynion rhyddhad dyledion

## Dyled

Dyled yw'r ail broblem fwyaf cyffredin o hyd, sef **29%** o'r holl broblemau. Cafodd bron **7,000 o bobl** help gyda mwy na **29,400 o broblemau dyled** rhwng Hydref a Rhagfyr 2015, ychydig yn llai (-2%) o gymharu â'r un cyfnod yn 2014.

Dyled sydd â'r gymhareb uchaf o broblemau i bobl, gyda phob person â 4.2 problem ddyled ar gyfartaledd.

Mae'r gostyngiad mewn problemau dyledion credyd defnyddwyr yn parhau, yn cynnwys cardiau credyd, benthyciadau personol, cyfleusterau gorddrafft a benthyciadau diwrnod cyflog. Un eithriad i'r duedd hon yw **cynnydd mewn dyledion archebion catalog a phost, gyda 1,437 o broblemau yn cael eu hadrodd, cynnydd o 8%** o'i gymharu â chwarter 3 yn 2014-2015.

| Y 10 problem ddyled fwyaf cyffredin | Nifer y problemau | % o holl broblemau dyledion | Newid o Ch3 2014-15 |
|---|---|---|---|
| **Ôl-ddyledion y dreth gyngor** | **3,853** | **13%** | **-1%** |
| Gorchymyn rhyddhad dyledion | 3,052 | 10% | +11% |
| Cardiau credyd/siopau | 2,932 | 10% | -9% |
| Benthyciadau personol | 2,685 | 9% | -8% |
| Ôl-ddyledion rhent (cyfanswm) | 1,509 | 5% | -2% |
| - Awdurdod Lleol | 556 | 2% | -4% |
| - Cymdeithas Tai | 566 | 2% | +14% |
| - Sector Preifat | 387 | 1% | -14% |
| Dyledion archebion catalog a phost | 1,437 | 5% | +8% |
| Dyledion dŵr | 1,431 | 5% | +5% |
| Dyledion ffôn/band eang | 1,329 | 5% | +20% |
| Gorddrafft banc/cymdeithas adeiladu | 1,224 | 4% | -19% |
| Dyled tanwydd | 1,030 | 4% | +4% |

▲ Tabl 2: Y 10 Problem Ddyled Fwyaf Cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth Cymru'n ymdrin â nhw yn ystod Ch3 2015-16

Gwelsom ychydig o ostyngiad yn nifer y bobl sydd â **phroblemau ôl-ddyledion y dreth gyngor, i lawr i 1,568 o bobl yn cael help gyda 3,853 o broblemau sy'n ostyngiad o 1% o gymharu â'r cyfnod hwn y llynedd.** Mae cyfran y problemau sy'n gysylltiedig ag ôl-ddyledion biliau cartref hanfodol yn parhau'n uchel o gymharu â dyledion credyd defnyddwyr, gyda chynnydd mewn dyledion dŵr (4%), tanwydd (5%) a ffôn/band eang (20%). **Mae ôl-ddyledion rhent wedi gostwng 2% yn gyffredinol** o gymharu â 2014-15, gyda gostyngiad nodedig mewn ôl-ddyledion rhent awdurdodau lleol a'r sector preifat yn gwneud iawn am y cynnydd mawr mewn **ôl-ddyledion rhent cymdeithasau tai (14%).**

**14%** o gynnydd mewn ôl-ddyledion ymysg tenantiaid cymdeithasau tai

Newidiadau nodedig eraill yn y problemau dyledion yw cynnydd sylweddol mewn **ôl-ddyledion hurbrynu, cynnydd o 28% i 318 o broblemau o gymharu â 2014-15.** Mae problemau gyda benthyciadau diwrnod cyflog yn parhau i ostwng yn sgil newidiadau deddfwriaethol diweddar, gan ostwng i 482 o broblemau, bron hanner y swm roeddem yn ei weld ychydig dros ddwy flynedd yn ôl yn 2013-14.

## Tai

Trodd **2,767 o bobl** at Gyngor ar Bopeth lleol i gael cymorth gyda **mwy na 3,700 o broblemau tai** rhwng mis Hydref a Rhagfyr 2015. Problemau gyda chartrefi'r sector rhentu preifat yw'r mwyafrif o hyd, gyda llawer mwy o bobl o'r sector hwn yn gofyn am ein cymorth gyda phroblemau na'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol neu'n berchen-feddianwyr.

| Y 5 problem tai fwyaf cyffredin | Nifer y cleientiaid | Nifer y problemau | % | Newid o Ch3 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| **Eiddo Sector Rhentu Preifat** | **929** | **1,133** | **31%** | **+5%** |
| Dan fygythiad o ddigartrefedd | 267 | 293 | 8% | -19% |
| Eiddo perchen-feddiannydd | 280 | 293 | 8% | +2% |
| Tai Awdurdod Lleol | 245 | 290 | 8% | -18% |
| Eiddo Cymdeithas Dai | 241 | 289 | 8% | -8% |

▲ Tabl 3: Y 5 problem tai fwyaf cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth Cymru'n ymdrin â nhw yn ystod Ch3 2015-16

Ledled y rhwydwaith cafwyd gostyngiad mawr mewn ymholiadau yn ymwneud â digartrefedd. Y rheswm am hyn mae'n debyg yw effaith newidiadau a gyflwynwyd i'r ddarpariaeth ddigartrefedd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 sy'n rhoi mwy o bwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae **problemau digartrefedd gwirioneddol wedi gostwng i 159, 29% yn is o gymharu â'r un cyfnod yn 2014. Gostyngodd problemau cysylltiedig â gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol yn sylweddol i 58 o broblemau, 52% yn is o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.**

Mae **1 o bob 4** problem gyflogaeth yn ymwneud â chyflog a hawliau

## Cyflogaeth

Mae problemau cyflogaeth yn parhau i fod yn bedwerydd ar y rhestr o'r problemau mwyaf cyffredin y mae pobl yn troi atom yn eu cylch. Rhwng Hydref a Rhagfyr, bu Cyngor ar Bopeth lleol yn helpu **2,855 o bobl** gyda **4,316 o broblemau cyflogaeth**, cynnydd bychan o 1% ers yr un cyfnod yn 2014. Problemau'n ymwneud â chyflog a hawliau yw'r rhai mwyaf cyffredin yn y maes hwn, gyda 939 o bobl yn gofyn am ein cymorth, a dyma yw chwarter yr holl broblemau cyflogaeth (26%).

Parhaodd problemau diswyddo i ostwng (11%) **ond mae problemau dileu swyddi wedi cynyddu eto, i fyny 8% o gymharu â 2014-15.**

Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn pobl sy'n gofyn am gymorth i ddatrys anghydfod (cynnydd o 17%), sydd efallai'n adlewyrchu ymgyrch Llywodraeth y DU am y dull hwn ac yn cynyddu rôl ACAS yn lle defnyddio tribiwnlysoedd cyflogaeth.

| Math o broblem | Nifer y cleientiaid | Nifer y problemau | % | Newid o Ch3 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflog a hawliau | 939 | 1,101 | 26% | +1% |
| Diswyddo | 526 | 699 | 16% | -11% |
| Telerau ac amodau cyflogaeth | 501 | 575 | 13% | +5% |
| Datrys anghydfod | 400 | 453 | 11% | +17% |
| Dileu swyddi | 275 | 362 | 8% | +8% |

▲ Tabl 4: Y 5 problem gyflogaeth fwyaf cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth Cymru'n ymdrin â nhw yn ystod Ch3 2015-16

## Defnyddiwr

Mae 'defnyddiwr' yn cyfeirio at ein categorïau data, 'Nwyddau traul a gwasanaethau', 'Gwasanaethau ariannol a gallu', 'Cyfleustodau a chyfathrebu' a 'Teithio a thrafnidiaeth' gyda'i gilydd. Ar draws y grŵp ehangach rhoddwyd help i **bron 5,000 o bobl** gyda phroblem defnyddiwr rhwng Hydref a Rhagfyr 2015.

| Math o broblem | Nifer y cleientiaid | Nifer y problemau | Newid o Ch3 2014-15 |
|---|---|---|---|
| Problemau tanwydd (e.e. nwy, trydan, olew, glo) | 1,191 | 2,951 | +97% |
| Gallu ariannol | 956 | 2,976 | +27% |
| Twyll a sgamiau | 180 | 476 | -54% |
| Dŵr a charthffosiaeth | 356 | 391 | +92% |
| Pensiynau personol | 288 | 389 | +154% |
| Trwsio/gwelliannau i adeiladau | 190 | 269 | +23% |
| Cyfrifon banc/cymdeithas adeiladu/Swyddfa'r Post | 155 | 222 | +17% |
| Asiantaethau cyfeirio credyd | 93 | 216 | +112% |
| Cerbydau ail law | 141 | 184 | +3% |
| Gyrru (e.e. troseddau gyrru, trwyddedau gyrru) | 131 | 145 | -1% |

▲ Tabl 5: Y 10 problem defnyddwyr mwyaf cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth Cymru'n ymdrin â nhw yn ystod Ch3 2015-16

Mae'r **cynnydd o 27% mewn problemau gallu ariannol** yn ganlyniad i ehangu gwasanaethau cyngor ar arian integredig sy'n darparu gwybodaeth a chyngor ar allu ariannol law yn llaw â chyngor ar ddyledion. Yn yr un modd, mae'r **cynnydd sylweddol o 154% mewn problemau pensiwn personol** yn deillio o sgil-effaith darparu gwasanaeth wyneb-yn-wyneb Pension Wise, y dechreuodd Cyngor ar Bopeth ei ddarparu ym mis Ebrill 2015[5].

[5] Gwasanaeth gan y llywodraeth yw Pension Wise a sefydlwyd i helpu pobl i ddeall yr opsiynau pensiwn sydd ar gael iddynt. Mae'n cynnig canllawiau i helpu i rymuso pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu pensiwn. Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu apwyntiadau Pension Wise wyneb-yn-wyneb. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ffigurau Pension Wise.

Ers Ebrill 2015 mae’r rhan fwyaf o ganolfannau Cyngor ar Bopeth lleol yng Nghymru wedi derbyn cyllid drwy Raglen Ynni y Fargen Orau. Mae’n debyg bod hyn wedi cael effaith ar adrodd am broblemau tanwydd a’r cynnydd cysylltiedig yn nifer y problemau a welwyd. Y problemau tanwydd mwyaf cyffredin yw:

- Gostyngiad Cartrefi Clyd
- Pris neu dariff ar gyfer nwy/trydan
- Dulliau gwerthu/newid cyflenwr

Y brif broblem dŵr yw tariffau Watersure/cymdeithasol. Unwaith eto mae hyn yn debyg o fod yn deillio o fwy o waith gweithredu a hyrwyddo’r tariffau gan gwmnïau dŵr ers eu cyflwyno yn Ebrill 2015.

Y gostyngiad mwyaf a mwyaf nodedig yn y grŵp hwn o broblemau defnyddwyr yw’r **gostyngiad o 54% mewn problemau twyll a sgamiau** a welwyd ar draws y rhwydwaith yng Nghymru o gymharu â’r un cyfnod yn 2014.

## Gwahaniaethu

Meysydd eraill lle gwelwyd cynnydd nodedig ond nad ydynt wedi’u nodi yn y 10 maes cyngor mwyaf cyffredin yw pobl yn gofyn am gymorth gydag achosion o wahaniaethu (cynnydd o 57%) ac addysg (cynnydd o 11%). Mae’r rhain yn debygol o ddeillio o ddarparu gwasanaeth cyngor rheng flaen a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth cynghori arbenigol i Gymru gyfan ar wahaniaethu, yn cynnwys gwahaniaethu ym maes addysg. Dylid nodi bod cyfanswm y problemau yn parhau’n isel – 513 o broblemau gwahaniaethu a 364 o broblemau addysg.

---

I gael rhagor o wybodaeth am y math o broblemau mae eich cangen Cyngor ar Bopeth lleol yn rhoi cyngor arnynt neu i drafod unrhyw broblemau a nodwyd yn yr adroddiad hwn e-bostiwch: policy.cymru@citizensadvice.org.uk